

Atal Digartrefedd Sir Ddinbych Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai

2020 / 21

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth yw Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai?	3
Tîm Atal Digartrefedd	4
Llwybr Atal Digartrefedd	4
Prosiect Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc	5
Swyddogion Atal Digartrefedd (HPOs)	5
Llety Dros Dro a Chynnal Tenantiaethau	5
Cymorth Generig	6
Cymorth Cam-drin Domestig	7
Cymorth Iechyd Meddwl	8
Cymorth i Deuluoedd	10
Cymorth i Ddefnyddwyr Sylweddau	10
Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymorth Tebyg neu Gysylltiedig	11
Cymorth i Ddinasyddion Ifanc (16 – 25 oed)	12

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Cyflwyniad

Ystyr digartrefedd yw bod heb le diogel i fyw.

Mae hyn yn cynnwys pethau fel cysgu ar soffas yn nhai pobl eraill, byw mewn llety anaddas, defnyddio gwelyau argyfwng a chysgu yn yr awyr agored. Gall olygu wynebu llawer o brofiadau anodd a thrawmatig. Gall digartrefedd neu'r perygl o ddigartrefedd ddigwydd, a pharhau, am lawer o resymau gwahanol, gan gynnwys cael eich troi allan (ddim o reidrwydd oherwydd unrhyw fai ar ran y tenant), perthynas / teulu yn chwalu, ddim yn gallu ymdopi oherwydd profiadau trawmatig neu anghenion cymorth eraill, a dinasyddion heb ddigon o arian i gadw eu cartref, efallai oherwydd eu bod wedi colli swydd neu newidiadau i fudd-daliadau.

Mae ein gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thai ar gyfer dinasyddion 16+ oed sy'n byw yn Sir Ddinbych ac sy'n ddigartref neu mewn perygl o golli eu cartref. Ein nod yw atal digartrefedd lle bo'n bosibl, gan weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i adnabod yr achosion a mynd i'r afael â nhw, gan gynorthwyo dinasyddion i fyw mor annibynnol â phosibl.

Beth yw Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai?

Mae Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai yn helpu dinasyddion i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder i fyw mor annibynnol â phosibl. Gall olygu tai â chymorth (lle mae dinasyddion yn byw mewn prosiect sy'n seiliedig ar lety, ac mae angen ychydig bach mwy o gymorth i feithrin eu sgiliau byw'n annibynnol) neu 'gymorth fel y bo'r angen' (lle na fydd y gweithiwr cymorth yn 'gysylltiedig' ag unrhyw lety, felly gall weithio gyda chi yn eich cartref eich hun, neu os ydych yn aros gyda'ch teulu, yn cysgu ar sofffa, ac ati)

Mae'r holl gymorth yn cael ei gynnig am gyfnod amser penodol, fel arfer tua 6-24 mis, yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Mae cymorth bob amser ar ei orau pan fydd yn cael ei arwain gan y dinesydd, ond gallai gynnwys cymorth gyda phethau fel:

- Cael bywyd mwy diogel, ac ansawdd bywyd gwell
- Datblygu sgiliau byw'n annibynnol
- Cymryd rheolaeth dros faterion ariannol, e.e. cymorth i gyllidebu, rhoi sylw i ddyledion, cael cyngor ariannol
- Cael gafael ar gymorth a chyfleoedd defnyddiol eraill, gan gynnwys cyflogaeth / hyfforddiant / addysg / gwirfoddoli

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Mae'r Cyfeirlyfr hwn yn cynnwys manylion am yr holl wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a gomisiynwyd gan Dîm Atal Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych drwy'r Rhaglen Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai.

Gallwch gyfeirio eich hun at y gwasanaethau hyn drwy lenwi'r **ffurflen atgyfeirio**, a'i hanfon at unpwyntmynediad@sirddinbych.gov.uk.

I gael cymorth a chyngor, a sgwrs am eich dewisiadau, gallwch hefyd:

- Anfon e-bost: atal.digartrefedd@sirddinbych.gov.uk / neu ffonio: 01824 712936
- Ymweld â'r Tîm Atal Digartrefedd yn ystod ein horiau galw heibio, 1.00 pm – 4.00pm, Llun-Gwener
- Cysylltu â ni yn y **Siop Un Alwad** neu galwch heibio un o'r **Pwyntiau Siarad**
- **Sylwch, oherwydd Covid 19 nid yw'n bosibl galw heibio i'r canolfannau hyn ar hyn o bryd.**

Tîm Atal Digartrefedd

Llwybr Atal Digartrefedd

Rhaid i bob atgyfeiriad ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai (ac eithrio ffoaduriaid a gwelyau argyfwng) gael ei anfon drwy'r Llwybr Atal Digartrefedd, at unpwyntmynediad@sirddinbych.gov.uk.

Yna bydd y Llwybr yn 'paru' yr unigolion a gafodd eu hatgyfeiro gyda'r prosiect cymorth mwyaf priodol lle mae lleoedd gwag ar gael ar y pryd (weithiau bydd yn rhaid i ddinesydd fynd ar restr aros y Llwybr os nad oes lleoedd gwag addas ar gael); gan ystyried anghenion a dymuniadau'r dinesydd, a sicrhau mynediad teg a chyfartal at gymorth.

Mae'r Tîm hefyd yn gweithio i sicrhau bod unrhyw rwystrau i ddod o hyd i'r cymorth cywir yn cael eu goresgyn, gan gynnwys cydlynu dulliau amlasiantaethol lle bo'r angen.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Prosiect Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc

Partneriaeth yw hon rhwng y Tîm Atal Digartrefedd, Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Ieuenctid. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phob dinesydd ifanc (rhwng 16 a 25 oed) sy'n cysylltu gyda CSDd pan fydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r Prosiect yn cynnig ymyriadau dynodedig i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, gan gynnig cyngor a chymorth, a rhoi cymorth i bobl ifanc ddeall eu dewisiadau, cael mynediad at wasanaethau cyfryngu, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac unrhyw adnoddau eraill a allai eu helpu gydag unrhyw anghenion cymorth.

Swyddogion Atal Digartrefedd (HPOs)

Mae'r Swyddogion Atal Digartrefedd yn gweithio gyda dinasyddion digartref neu rai sydd mewn perygl o golli eu cartref, i'w helpu i atal digartrefedd neu ddod o hyd i lety addas. Os yw dinesydd yn ddigartref eisoes, neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn y 56 diwrnod nesaf (pan mae dyletswyddau cyfreithiol i gynnig cymorth fel arfer), bydd Swyddogion Atal Digartrefedd yn gweithio gyda'r dinesydd hwnnw i gynnal asesiad er mwyn darganfod pa gymorth sydd ar gael ac sydd fwyaf addas ar gyfer ei anghenion a'i amgylchiadau.

Yna bydd yn gweithio ar ei Gynllun Tai Personol i atal digartrefedd, neu er mwyn dod â'r sefyllfa i ben. Mae'r Swyddogion Atal Digartrefedd yn gweithio'n agos gyda phrosiectau cymorth yn gysylltiedig â thai i ddarparu'r cymorth gorau ar gyfer pob dinesydd.

Llety Dros Dro a Chynnal Tenantiaethau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu llety ar gyfer dinasyddion mewn rhai amgylchiadau neu os oes ganddynt anghenion cymorth penodol. Mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad gyda'r Swyddog Atal Digartrefedd, fel y nodwyd uchod.

Mae'r Swyddogion Llety Dros Dro a Chynnal Tenantiaethau yn gweithio'n agos gyda landlordiaid i sicrhau bod y llety o safon uchel ac yn addas ar gyfer dinasyddion â phob math o anghenion gwahanol. Maent hefyd yn cynnig cymorth pan fydd dinasyddion yn symud ymlaen i'w llety eu hun, i sicrhau bod y denantiaeth newydd yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Cymorth Generig

Prosiectau sy'n gallu gweithio gyda dinasyddion ag amrediad eang o anghenion cymorth.

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Adullam Homes - prosiect atal digartrefedd amlddisgyblaeth	89	Prosiect tai â chymorth a chymorth fel y bo'r angen yw hwn ar gyfer dinasyddion 16+ oed ag amrediad eang o anghenion ac amgylchiadau. Mae'n cynnwys o leiaf 35 o unedau tai â chymorth a 54 o unedau cymorth fel y bo'r angen.
Cymorth fel y bo'r angen, pobl dros 25 oed - Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	54	Prosiect tai â chymorth a chymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion 25+ oed ag amrediad eang o anghenion ac amgylchiadau.
Ty Golau - Partneriaeth rhwng CSDd a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn	7 4 4	Prosiect gwelyau argyfwng, tai â chymorth, a chymorth fel y bo'r angen. Mae 3 elfen ar wahân ond cysylltiedig: <ul style="list-style-type: none"> • Gwelyau argyfwng: gwasanaeth mynediad uniongyrchol yn cynnig gwelyau argyfwng mewn ystafelloedd dormiau i ddynion a menywod, ar gyfer dinasyddion dros 18 oed, heb blant dibynnol, nad oes ganddynt le diogel i aros. Mae'r prosiect fel arfer yn cynnig trwydded 3 noson a bydd yn gweithio gyda dinasyddion i'w symud i lety mwy diogel (e.e. tai â chymorth neu eu tenantiaeth eu hun) cyn gynted â phosibl. • Yr Hostel: ateb tai â chymorth tymor byr (hyd at 3 mis) ar gyfer dinasyddion dros 18 oed, heb blant dibynnol, sy'n ddigartref neu mewn perygl o fynd yn ddigartref. Mae ardaloedd cyffredin yn cael eu rhannu gyda'r preswylwr eraill ac mae staff ar gael 24 awr y dydd • Gwasanaeth Cymorth Dwysedd Uchel: prosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion dros 18 oed, heb blant dibynnol, sydd naill ai yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Annibyniaeth yn y Cartref - CSDd	180	Prosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion â phob math o anghenion ac amgylchiadau. Bydd y dinasyddion sy'n derbyn cymorth fel arfer dros 50 oed, ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Timau Ailalluogi ac Iechyd.
Tai â Chymorth Seashells - Seashells	4	Prosiect tai â chymorth ar gyfer dynion dros 25 oed. Mae ardaloedd cyffredin yn cael eu rhannu, ac mae staff y prosiect ar gael 24 awr y dydd.
GIFT Cymorth fel y bo'r angen - The Wallich	60	Prosiect tai â chymorth ar gyfer dynion dros 25 oed. Mae ardaloedd cyffredin yn cael eu rhannu, ac mae staff y prosiect ar gael 24 awr y dydd.

Cymorth Cam-drin Domestig

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Cymorth fel y bo'r angen Cam-drin Domestig a Ffoaduriaid Sir Ddinbych - DASU (Uned Diogelwch Cam-drin Domestig)	<ul style="list-style-type: none"> • 20 - 25 Aelwyd o Ffoaduriaid • 35 - 60 Cymorth fel y bo'r angen 	Gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen yw hwn ar gyfer isfaswm o 35 o ddinasyddion ag anghenion cymorth yn gysylltiedig â cham-drin domestig, ac sydd o ganlyniad naill ai yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, yn ogystal â llety mynediad uniongyrchol brys i ffoaduriaid, yn cynnig cymorth ar gyfer hyd at 25 o ddinasyddion a'u plant sy'n dianc rhag cam-drin domestig, ac o ganlyniad maent yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Cymorth Iechyd Meddwl

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Gwasanaeth ABBA - Age Connects	10	Prosiect cymorth fel y bo'r angen yw hwn ar gyfer dinasyddion sy'n dangos arwyddion cynnar dementia, yn ogystal â dinasyddion a allai wynebu anawsterau wrth gynnal eu hannibyniaeth oherwydd problemau cof, iselder, seicosis, neu anghenion cymorth tebyg.
Cymorth Iechyd Meddwl fel y bo'r angen - Gorwel	12	Prosiect cymorth fel y bo'r angen yw hwn ar gyfer dinasyddion ag anghenion cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys dinasyddion nad ydynt efallai wedi cael diagnosis ffurfiol. Gall dinasyddion gael amrediad eang o anghenion cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys pethau fel hwylliau gwael neu gorbryder o ganlyniad i'w sefyllfa tai.
Cymorth Iechyd Meddwl fel y bo'r angen - Hafan Cymru	16	Prosiect tai â chymorth (6 uned) a chymorth fel y bo'r angen (10 uned) yw hwn ar gyfer dinasyddion ag anghenion cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys dinasyddion nad ydynt efallai wedi cael diagnosis ffurfiol. Gall dinasyddion gael amrediad eang o anghenion cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys pethau fel hwylliau gwael neu gorbryder o ganlyniad i'w sefyllfa tai.
ACTS Cymorth fel y bo'r angen - Hafal	12	Prosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion sydd wedi cael diagnosis o anghenion cymorth iechyd meddwl, ac sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Mae gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn cynnwys gweld seiciatrydd neu Nyrs Seiciatryddol Cymunedol (nid gofal cynradd) yn eich Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Os nad ydych yn siŵr, peidiwch â phoeni, gallwn drafod hyn gyda chi.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Four Walls Cymorth fel y bo'r angen - Hafal	8	Prosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion ag anghenion cymorth iechyd meddwl, sydd naill ai heb gael diagnosis, neu sydd wedi cael diagnosis lle mae'r dinesydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl cynradd yn unig. Mae gwasanaethau iechyd meddwl cynradd yn cynnwys eich meddyg teulu neu Nyrs Seiciatryddol Cymunedol. Os nad ydych yn siŵr, peidiwch â phoeni, gallwn drafod hyn gyda chi.
Tai â Chymorth - Hafal	5	Prosiect tai â chymorth ar gyfer dinasyddion 18+ oed heb blant dibynnol, sydd ag anghenion cymorth iechyd meddwl heb eu diagnosisio (fel uchod). Mae ardaloedd cyffredin yn cael eu rhannu gyda phreswylwyr eraill, ac mae staff ar gael 24 awr y dydd.
Prosiect Cymorth Iechyd Meddwl fel y bo'r angen - Tŷ Mor	10	Prosiect tai â chymorth (5 uned) a chymorth fel y bo'r angen (5 uned) ar gyfer dinasyddion heb blant dibynnol, sydd wedi cael diagnosis o anghenion cymorth iechyd meddwl, ac sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (fel uchod). Mae'n cynnwys o leiaf 5 uned cymorth fel y bo'r angen a 5 uned tai â chymorth sy'n cael eu rhannu.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Cymorth i Deuluoedd

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Tîm Cymorth i Deuluoedd -CSDd	59	Prosiect cymorth fel y bo'r angen yw hwn ar gyfer teuluoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau statudol ym meysydd amddiffyn plant a phlant mewn angen, yn ogystal â theuluoedd y nodwyd bod arnynt angen gwasanaethau statudol o'r fath ar frys. Mae'r prosiect hwn hefyd yn rhoi cymorth i ddinasyddion ifanc sy'n gadael gofal Cyngor Sir Ddinbych lle mae dyletswydd statudol barhaus yn bodoli.

Cymorth i Ddefnyddwyr Sylweddau

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Doorstop; The Wallich	7	Prosiect cymorth fel y bo'r angen a thai â chymorth i ddinasyddion heb blant dibynnol, sydd ag anghenion cymorth yn gysylltiedig â defnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol). Bydd dinasyddion sy'n defnyddio'r prosiect fel arfer yn derbyn triniaeth / yn adfer (e.e. ar ôl dadwenwyno neu maent yn derbyn meddyginiaeth a ragnodir); fodd bynnag, byddwn yn ystyried dinasyddion sy'n dymuno rhoi sylw i'w anghenion cymorth i fynd i'r afael â'u defnydd o sylweddau ond nad ydynt yn derbyn y cymorth perthnasol hyd yma. Mae gan y prosiect o leiaf 1 uned cymorth fel y bo'r angen a 6 uned llety â chymorth hunangynhaliol.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymorth Tebyg neu Gysylltiedig

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Keyring Cymorth fel y bo'r angen - Keyring	28	Prosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion ag anghenion dysgu, anhwylder yn y sbectrwm awtistig, syndrom Asperger, niwed i'r ymennydd, neu anghenion cymorth tebyg neu gysylltiedig eraill.
Hwylusydd Tenantiaethau - CSDd	5	Prosiect cymorth fel y bo'r angen, yn darparu cymorth arbenigol i ddinasyddion ag anghenion dysgu, niwed i'r ymennydd, ac Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig. Prosiect mwy tymor byr yw hwn fel arfer (hyd at 6 mis), sy'n darparu cymorth a gwaith cydlynu dwys lle bydd unigolyn yn symud i lety mwy annibynnol, gan gynnwys symud o'r cartref teuluol neu byw â chymorth; rhoddir cymorth i ddinasyddion bontio rhwng derbyn gofal a chymorth wedi'i reoli gan leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol. Mae'r prosiect hwn wedi'i leoli ar y cyd gyda Thîm Anableddau Cymhleth Cyngor Sir Ddinbych a bydd y dinasyddion sy'n derbyn cymorth fel arfer yn unigolion sydd wedi'u hadnabod gan y Tîm fel pobl y mae arnynt angen cymorth yn gysylltiedig â thai.
Byw yn y Gymuned - CSDd (Cymorth mewnol ac wedi'i is-gontractio yn allanol)	109	Prosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion ag anableddau dysgu neu anableddau dysgu isel sy'n byw yn un o Gynlluniau Byw yn y Gymuned Cyngor Sir Ddinbych.

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai 2020 / 21

Cymorth i Ddinasyddion Ifanc (16 – 25 oed)

Prosiect Cymorth a Darparwr Cymorth	Isafswm y dinasyddion all dderbyn cymorth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Y Dyfodol - Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	29	Prosiect tai â chymorth ar gyfer dinasyddion ifanc heb blant dibynnol. Mae'r prosiect yn cynnwys dwy elfen: <ul style="list-style-type: none"> Unedau lle mae staff yn gweithio 24 awr: Mae'r prosiect yn cynnig nifer o fflatiau ar safle'r prif brosiect sy'n cael eu rhannu naill ai gan 2 ddinesydd ifanc o'r un rhyw neu fflatiau unigol lle gall pobl fyw ar eu pen eu hun. Allgymorth: Mae ail elfen y prosiect yn cynnwys fflatiau hunangynhaliol, y gellir eu defnyddio ar gyfer llety symud ymlaen/camu i lawr o'r unedau sy'n cael eu staffio 24 awr y dydd.
Yr Hafod – Tai â Chymorth a Chymorth fel y bo'r angen Grŵp Cynefin	12	Prosiect tai â chymorth a chymorth fel y bo'r angen. Mae'r 6 uned llety â chymorth ar gyfer dinasyddion ifanc heb blant dibynnol. Maent yn cynnig fflatiau hunangynhaliol yn ogystal ag ardaloedd cymunedol a rennir yn y prosiect sy'n cael eu staffio 24 awr y dydd. Mae cysylltiad agos rhwng y prosiect â Hwb Dinbych, ac mae disgwyliad y bydd dinasyddion ifanc sy'n defnyddio'r prosiect yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg / hyfforddiant / cyflogaeth / gwirfoddoli. Mae'r cymorth fel y bo'r angen ar gyfer dinasyddion ifanc heb blant dibynnol, neu gyda phlant dibynnol.
Supported Lodgings; Local Solutions	18	Prosiect tai â chymorth ar gyfer dinasyddion ifanc 16-21 oed yn unig. Mae'r llety yn cael ei ddarparu gan 'ddeiliaid tai' yn y gymuned.
Nightstop; Local Solutions	4	Llety mewn argyfwng ar gyfer dinasyddion ifanc 16-21 oed. Mae'r llety yn cael ei ddarparu gan 'ddeiliaid tai' yn y gymuned ar sail tymor byr, fel arfer am gyfnod ddim hirach na 4 wythnos.

Yn ogystal â'r gwasanaethau uchod, mae Swyddog Mentor Cyflogaeth a Swyddog Cyngor ar Bopeth ar gael i roi cymorth dynodedig i ddinasyddion yn Sir Ddinbych.